# Effaith Economaidd-gymdeithasol Cymdeithasau Tai Cymru

Tachwedd 2025

savills

# Rhagair

Ychydig iawn o bethau sy'n fwy sylfaenol na bod â chartref diogel, saff a da. Gwyddom i gyd yn reddol o'n bywydau ein hunain am fudd hyn a gweld yr effaith y gall tai gwell ei gael ar ein cyfeillion, ein teuluoedd a'n hardaloedd lleol. Gall fod yn drawsnewidiol.

Eto, gwyddom fod gormod o bobl yn dal i fyw mewn cartrefi na fedrant eu fforddio, sy'n anaddas iddynt neu hyd yn oed yn anniogel. Ac yn dal i fod, mae gormod o bobl yn dal i fod heb le i'w alw yn gartref.

Mae cymdeithasau tai Cymru wedi gwybod hyn ers amser maith. Fel cyrff nid er elw gyda'u gwreiddiau yn ddwfn yn eu cymunedau, maent yn gweld drostynt eu hunain yn feunyddiol beth yw effeithiau ein argyfwng tai presennol.

Mae'r dystiolaeth a roddir yn yr ymchwil hwn gan Savills yn amlwg iawn – mae cymdeithasau tai yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl.

Mae ganddynt rôl hollbwysig wrth ddarparu'r cartrefi a'r gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl ym mhob rhan o'r wlad.

Yn 2024/25 amcangyfrifir iddynt:

- wario £1.4bn yng Nghymru, cyfwerth â 85c o bob £1
- cefnogi 37,040 o swyddi llawn-amser uniongyrchol ac anuniongyrchol
- gwario £28m ar adfywio cymunedol neu gynnal tenantiaethau.

Ond o gael yr amgylchedd a'r buddsoddiad cywir, gwyddom y gallant fynd ymhellach. Mae'r adroddiadau yn dangos yr effaith ddamcaniaethol y byddai cymdeithasau tai yn adeiladu 20,000 o gartrefi fforddiadwy dros dymor 4 blynedd nesaf y Senedd yn ei gael. Byddai hyn yn:

- rhoi £3.6bn (gwerth presennol net) o fudd i bobl a chymunedau yn bennaf drwy gynyddu cynhyrchiant y farchnad lafur a gostwng biliau;
- arbed £2.1bn (gwerth presennol net) i wasanaethau cyhoeddus hanfodol, yn bennaf drwy ostwng costau llety dros dro a chost gwasanaethau digartrefedd;
- cefnogi gweithlu o 14,200 y flwyddyn yn ystod y cyfnod adeiladu a 2690 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol yn y tymor hirach
- ychwanegu £3.5bn (gwerth presennol net) i economi Cymru yn ystod y cyfnod adeiladu, gyda chyfraniad parhaus o £114m y flwyddyn yn y tymor hirach.

Gyda 8% o denantiaid tai cymdeithasol yn dod o gefndir lleiafrif ethnig, ac o gofio fod pobl sy'n byw gydag anabledd yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi rhent cymdeithasol, nid dim ond mater o rifau yw hyn.

Mae'n fater o degwch, cydraddoldeb ac urddas. Wrth i ni edrych ymlaen at yr etholiad i Senedd Cymru y flwyddyn nesaf, mae angen i ni fynd â phethau'n ôl i'r sylfeini.

Wrth galon unrhyw gynllun ar gyfer Cymru gan lywodraeth y dyfodol rydym angen gweld ymrwymiadau dewr a gyda ffocws ar ddatrysiadau i fwy o gartrefi, cartrefi gwell a lleoedd mwy iach a gaiff eu trawsnewid gan rym cartrefi diogel, gweddus a saff.

Cartrefi sy'n gadael i bobl fyw gydag urddas. Cartrefi sy'n ateb anghenion newidiol poblogaeth sy'n heneiddio. Cartrefi sy'n manteisio i'r eithaf ar dechnoleg gyfredol a thechnoleg newydd. Cartrefi sy'n cadw pobl yn gynnes, yn hytrach na cynhesu'r hinsawdd. Cartrefi sydd yng nghanol lleoedd a chymunedau ledled Cymru. Cartrefi sy'n rhoi'r llwyfan mae pobl ei angen i weithio, mynd i'r ysgol, aros yn iach a ffynnu.

**Cartrefi: ar gyfer pob dyfodol.**



**Stuart Ropke**
**Prif Weithredwr**
**Cartrefi Cymunedol Cymru**

# Cyflwyniad

Cafodd Savills eu comisiynu gan CHC i asesu effaith cymdeithasau tai yng Nghymru dan dair thema: pobl, economi a gwasanaethau cyhoeddus. Y senario penodol a gaiff ei fodelu gan yr adroddiad hwn yw effaith damcaniaethol sylweddol cymdeithasau tai yn cyflenwi 20,000 o gartrefi newydd dros dymor pedair blynedd nesaf y Senedd.

Caiff yr adroddiadau ar bobl a gwasanaethau cyhoeddus eu llywio gan adolygiad sylfaenol o lenyddiaeth a damcaniaeth newid gyda'r effaith yn cael ei fodelu dros ddau gyfnod – cyfnod pedair blynedd adeiladu a chyfnod gweithredol 30 mlynedd y cartrefi.

Mae'r model economaidd yn defnyddio dulliau sefydledig a ddatblygwyd gan Uned Ymchwil i Economi Cymru (WERU) ac a ddefnyddiwyd mewn adroddiadau effaith blaenorol (2015, 2018). Defnyddiwyd data sylfaenol o arolwg o 20 cymdeithas tai yng Nghymru (yn cynrychioli 67% o'r sector) yn ogystal â data o Gyfrifon Cynhwysfawr CHC i roi gwybodaeth bellach ar gyfer dadansoddi patrymau gwario. Cafodd effeithiau economaidd, yn cynnwys swyddi cyfwerth ag amser llawn a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) eu hamcangyfrif yn defnyddio cymarebau safonol o setiau data allweddol y llywodraeth.

Bydd yr adroddiadau llawn ar gael ar ein gwefan yma.

## Yr hyn y mae cymdeithasau tai yn ei gyflenwi nawr

**£1.45bn** GVA

» Am bob £1 mewn GVA a gynhyrchir gan gymdeithas tai caiff 90c ychwanegol ei gynhyrchu drwy weddill yr economi

» Cefnogi **37,000** o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol cyfwerth ag amser llawn yn ystod adeiladu a gweithrediadau.

» Buddsoddi **£28m** yn uniongyrchol i adfywio cymunedol a chynnal tenantiaethau

## Yr hyn y gallai cymdeithasau tai ei gyflenwi

**£4.9bn**

» (gwerth presennol net) GVA ychwanegol yn ystod adeiladu a gweithredu, ar ben allbynnau presennol.

» Gallai **14,200** o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol cyfwerth ag amser llawn gael eu cefnogi bob blwyddyn, yn ystod y gwaith adeiladu

» Gallai cymdeithasau tai gynhyrchu **£2.8bn** (gwerth presennol net) mewn buddion ar gyfer tenantiaid drwy gyflenwi cartref a £807.2m (gwerth presennol net) pellach yn ystod adeiladu ar gyfer gweithwyr, busnesau a phrentisiaethau

# Crynodeb Gweithredol

Nid dim ond cyflenwi a rheoli tai a wnaiff cymdeithasau tai yng Nghymru – maent yn rhoi'r sylfaen ar gyfer dyfodol diogel ar gyfer eu tenantiaid a chymunedau. Mae eu diben yn ymestyn ymhell tu hwnt i frics a morter.

## Effaith weithredol ac adeiladu gyfunol 20,000 o gartrefi yw:

**£4.9bn** (Gwerth Presennol Net) Gwerth Ychwanegol Gros

**£3.6bn** (NGV) Effaith ar Bobl

**£2.1bn** (NGV) Arbedion i Wasanaethau Cyhoeddus

# 1. Beth mae cymdeithasau tai yn ei wneud?

## Mae cymdeithasau tai yn darparu cartrefi diogel a chynnes a gwasanaethau hanfodol ar gyfer cymunedau amrywiol

Mae cymdeithasau tai yn ymroddedig i ddarparu cartref cynnes a diogel ar gyfer pawb, o bob cefndir a mynd i'r afael ag achosion gwraidd tlodi ac anghydraddoldeb tai.

Maent yn sylfaenol gynhwysol, gyda ffocws ar gefnogi'r rhai sydd mewn mwyaf o angen. Er enghraifft, ar draws y Deyrnas Unedig, mae pobl gydag anabledd yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai cymdeithasol.

Ymhellach, mae bron hanner cymdeithasau tai Cymru yn cynnig cartrefi rhan-berchnogaeth, gan greu llwybr hollbwysig ar gyfer pobl ifanc i gamu ar ysgol eiddo.

Mae cymdeithasau tai yn cynnig amrywiaeth o gartrefi a chymorth wedi ei deilwra fel y gall pob preswylydd ffynnu yn eu tai eu hunain.



ClwydAlyn

## Cymdeithasau tai yn cyflenwi tai dyfodol Cymru

Nid yw cymdeithasau tai yn dechrau o'r newydd – maent wedi profi ei hunain fel partneriaid cyflenwi gyda hanes cryf o lwyddiant ac maent yn **barod i roi diwedd ar yr argyfwng tai**, er enghraifft maent yn gyfrifol am gyflenwi 75% o'r holl gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy yn nhymor hwn y Senedd.[1]

1 StatsWales, Darpariaeth Tai Fforddiadwy Ychwanegol yn ôl darparwr a blwyddyn, 2024

## Dengys ymchwil gan Savills eu bod yn:

### Gyflogwr mawr

» Yn 2024-25 yn unig, amcangyfrifir iddynt gefnogi **37,040 o swyddi cyfwerth ag amser llawn** (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar draws adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw

### Lluosydd GVA

» Mae cymdeithasau tai yn rym yn yr economi, ac amcangyfrifir iddynt greu **£1.45 biliwn** mewn GVA uniongyrchol ac anuniongyrchol yn 24/25. Meddyliwch amdano fel hyn: am bob **£1** o werth y maent yn ei greu, maent yn cynhyrchu **90c** ychwanegol drwy weddill economi Cymru

### Buddsoddi mewn pobl a chymunedau

» Yn 24/25 gwariwyd **£11.6 miliwn** ar adfywio cymunedol a **£16.5 miliwn** ar gynnal tenantiaethau. Mae eu gwariant cronfa caledi yn cynyddu, sy'n mynd law yn llaw yn uniongyrchol â gostyngiad cyflym yn nifer yr achosion troi allan, gan brofi eu hymroddiad i bobl yn hytrach nag elw.



Adra

# Cymdeithasau tai yn cynyddu eu heffaith i'r eithaf drwy eu model cyllido unigryw

Mae cymdeithasau tai yn bartneriaid cyflenwi grymus oherwydd nad ydynt yn dibynnu yn llwyr ar gyllid gan y llywodraeth i adeiladu a rheoli cartrefi. Maent yn defnyddio eu hasedau i ysgogi, gan ymestyn cyllid cyhoeddus gyda buddsoddiad preifat.

**Yr ymyl cyllid preifat**

- Dim ond 40% o gyfanswm gwariant cymdeithasau tai sy'n dod o grantiau llywodraeth. Caiff y 60% arall ei gyllido drwy fenthyca preifat a ffrydiau incwm arall (fel rhent), gan ddangos eu gallu unigryw i gyflenwi a dangos sut mae buddsoddiad gan y llywodraeth yn gweithredu fel catalydd hanfodol ar gyfer cyllid preifat.

- Mae cymdeithasau tai yn dangos eu hymroddiad i faint a rhagwelir y bydd eu benthyca preifat yn cyrraedd **£5.4 biliwn** erbyn 2027.[2]

2 CHC, Cyfrifon Byd-eang, 2022

# Cymdeithasau tai yn angori economi Cymru drwy ganolbwyntio ar fuddsoddiad lleol


Mae cymdeithasau tai yn fwy na dim ond adeiladwyr, maent hefyd yn sefydliadau angor sy'n hybu cydnerthedd a sefydlogrwydd drwy gadw eu gwariant yn lleol. Maent yn cefnogi economïau lleol drwy ddyfarnu contractau datblygu, cynnal a chadw a thrwsio i fusnesau lleol a rhanbarthol. Mae eu presenoldeb hirdymor yn caniatáu buddsoddiad strategol sy'n adeiladu cydnerthedd cymunedol.

**Cadw arian yng Nghymru**

- **Amcangyfrifir fod 85%** o holl wariant cymdeithasau tai yn **aros yma yng Nghymru.**

- Yn 2024/25, amcangyfrifir fod hyn yn gyfanswm o £1.49 biliwn a arhosodd o fewn economi Cymru.

# Sut y caiff cymdeithasau tai eu cyllido



# 2.

# Pa effaith y gallai cymdeithasau tai ei gael yn nhymor nesaf y Senedd?

# Byddai adeiladu 20,000 o gartrefi newydd dros bedair blynedd yn cael effaith sy'n ymestyn lawer ymhellach na'r farchnad lafur, gan newid bywydau yn sylfaenol a hybu'r economi

» **Gweithlu o filoedd.** Byddai gwaith adeiladu yn creu 6,293 o swyddi yn uniongyrchol ac yn sbardun i 7,908 o swyddi anuniongyrchol eraill y flwyddyn ledled y gadwyn gyflenwi. Mae hynny'n gyfanswm o 14,200 o bobl a gaiff eu cadw mewn gwaith bob blwyddyn.

» **Dechrau gyrfaoedd newydd.** Byddem yn meithrin y genhedlaeth nesaf o adeiladwyr a chrefftwyr drwy greu 2,065 prentisiaeth a darparu 1,245 lleoliad gwaith.

» **Newid bywydau.** Byddai'r prosiect yn helpu 826 o bobl a arferai fod yn ddi-waith i symud yn ôl yn llwyddiannus i gyflogaeth gynaliadwy, gan drawsnewid eu sefydlogrwydd ariannol a'u hymdeimlad o bwrpas.

» **Cartrefi i blant.** Byddai miloedd o blant a'u teuluoedd yn cael eu symud allan o gartrefi dros dro ac i gartrefi parhaol a sefydlog, gydag o leiaf 3,900 o aelwydydd, yn cynnwys 2,475 o blant, yn cael budd. Byddai hyn yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer gwell addysg a llesiant.

# Effaith 20,000 o gartrefi newydd:
# buddion tymor byr

Gwyddom i gyd fod tai yn fuddsoddiad ar gyfer y dyfodol. Ond dengys ymchwil fod buddion tymor byr sylweddol yn ystod y cyfnod adeiladu 4-mlynedd a gafodd ei fodelu.

**Catalydd allweddol i'r economi**

- Byddai £3.2 biliwn GVA yn cael ei gynhyrchu, gan roi hwb hanfodol i'r economi yn ystod y cyfnod adeiladu (uniongyrchol ac anuniongyrchol)

**Buddsoddiad cymdeithasol sy'n trawsnewid**

- Byddai 14,200 o swyddi adeiladu uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cael eu creu bob blwyddyn
- £785.4 miliwn o fuddion uniongyrchol i bobl a chymunedau drwy fuddsoddiad lleol a chyfleoedd gyrfa, yn cynnwys
  - £72 miliwn o fuddion llesiant wrth i bobl symud i waith.
  - £21.5 miliwn yn cael eu buddsoddi'n benodol mewn prentisiaethau adeiladu.
- £307.9 Million Miliwn o arbedion i wasanaethau cyhoeddus (a gaiff ei gyrru drwy ail-gyflogi hawlwyr budd-daliadau ac arbedion i'r GIG fel canlyniad).

## Cyfnod adeiladu 4 blynedd Gwasanaethau Cyhoeddus (gwerth presennol net, prisiau 2025)

- **£4.4m** Arbedion i'r GIG o ostwng diweithdra
- **£303.5m** Refeniw i'r llywodraeth ganolog o adeiladu

**£307.9m**

## Cyfnod adeiladu 4 blynedd Pobl (gwerth presennol net, prisiau 2025)

- **£21.6m** Prentisiaethau adeiladu
- **£2.8m** Lleoliadau gwaith
- **£3.9m** Digwyddiadau gyrfa adeiladu
- **£2.7m** Sgiliau a chymwysterau a enillwyd
- **£682.5m** Caffael lleol a chadwyn cyflenwi
- **£72m** Effeithiau llesiant ail-ymuno â'r cyflenwad llafur

**£785.5m**

Mae'r holl ffigurau yn Werth Presennol Net 2025

# Buddion hirdymor 20,000 o gartrefi: Effaith 30-mlynedd fesul cartref

Dros y tymor hirach mae gan gyflenwi mwy o gartrefi ar raddfa fawr effaith weithredol drawsnewidiol, gyda'r effeithiau'n cael eu teimlo'n eang ar draws Cymru

## Tenantiaid a chymunedau yn ennill £2.8 biliw

- **£1.3 biliwn** o hynny o fudd uniongyrchol i denantiaid drwy renti cymdeithasol rhatach o gymharu â daliadaethau eraill.
- **£1.3 biliwn** o hwb i gynhyrchiant llafur cenedlaethol.
- **£109 miliwn** wedi ei arbed ar filiau ynni (trydan a nwy), gan ddangos budd cartrefi effeithiol.

## Gwasanaethau cyhoeddus yn arbed £1.8 biliwn

- Cyfanswm arbedion gwasanaethau cyhoeddus yn cyrraedd **£1.8 biliwn** (ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig)
- Yr arbediad sengl mwyaf yw £**1.1 biliwn** – o symud 3,900 aelwyd allan o lety dros dro drud
- Arbed **£589.2 miliwn** ychwanegol drwy roi cartrefi parhaol i 7,100 o aelwydydd digartref gydag anghenion blaenoriaeth.

## Hwb economaidd blynyddol

- Gweithrediad y cartrefi yn cynhyrchu cyfanswm o **£114 miliwn** mewn GVA bob un flwyddyn (£64m yn uniongyrchol + £50m anuniongyrchol/cymell).
- **2690** o swyddi cyfwerth at amser llawn yn cael eu cefnogi yn anuniongyrchol ac uniongyrchol drwy reoli'r cartrefi hyn fesul blwyddyn

*Mae'r holl ffigurau yn Werth Presennol Net 2025

# Buddion hirdymor 20,000 o gartrefi: Effaith 30-mlynedd fesul cartref

Mae'n amlwg fod buddsoddi mewn cymdeithasau tai yn ddull grymus o ymyriad cynnar sy'n rhoi gwerth rhagorol am arian ac yn diogelu gwasanaethau cyhoeddus. Mae dadansoddi'r budd hwn yn dangos y bydd pob un cartref cymdeithas tai a gaiff ei godi yn:

**Diogelu'r pwrs cyhoeddus:** Cynhyrchu **£107,000 mewn cyfanswm arbedion** a refeniw ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:

» **£53,300** wedi ei arbed o ostwng yr angen am **lety dros dro.**

» **£29,500** wedi ei arbed o ostwng digartrefedd.

» **£15,000** wedi ei gynhyrchu mewn **refeniw trethiant yn ystod adeiladu.**

» **£1,800** mewn arbedion uniongyrchol i'r **GIG yn ystod adeiladu ac unwaith yn weithredol.**

Rhoi buddion enfawr i denantiaid a chymunedau: Cyflenwi £180,000 mewn cyfanswm buddion i denantiaid a'u cymunedau lleol:

» **£65,400** mewn buddion llesiant yn mynd yn uniongyrchol i denantiaid.


» **£66,800** wedi ei ennill o gynnydd mewn cynhyrchiant..

» **£1,200** wedi ei arbed ar danwydd oherwydd adeiladau newydd effeithiol iawn o ran ynni, gan fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

» **£5,500** Arbed Arian ar Wres Canolog



*Trivallis*



*Cynon Taf*

## Cyfnod gweithredu 30 mlynedd gwasanaethau cyhoeddus (gwerth presennol net, prisiau 2025)

- **£32.2m** Arbedion i'r GIG
- **£0.2m** Arbedion o ostwng troseddu
- **£140.5m** Arbedion o lai o ymyriadau ar addysg
- **£3.9m** Arbedion o leihau gorlenwi
- **£1.1bn** Arbedion o lety dros dro
- **£589.2m** Arbediad cyllidol o ostwng digartrefedd

**£1.8bn**

## Cyfnod gweithredu 30 mlynedd pobl (gwerth presennol net, prisiau 2025)

- **£1.3bn** Budd-daliadau lles o brisiau fforddiadwy vs prisiau'r farchnad
- **£109.3m** Arbedion trydan a nwy
- **£27m** Effeithiau llesiant o gysgu ar y stryd i gartrefi sicr
- **£1.3bn** Cynhyrchiant marchnad lafur
- **£23.7m** Buddion gwres canolog

**£2.8bn**

# Dadansoddi'r ystadegau hyn: Y straeon dynol tu ôl i'r rhifau

## Effaith Dafydd

Fe wnaeth Dafydd, sy'n aelod o dîm ymgysylltu â phreswylwyr Hedyn, helpu preswylydd oedd yn benderfynol i ailadeiladu ei fywyd drwy ei helpu i gael mynediad i gyllid ar gyfer cwrs cyfrifeg.

Dywedodd y preswylydd: 'Fe wnaeth Daf arbed fy mywyd, fyddwn i ddim wedi gallu fforddio'r cwrs hwn hebddo ef a Hedyn'.

## Stori Olivia

Roedd Olivia* yn ddigartref a chafodd fflat gan Gorwel (gwasanaeth cymorth Grŵp Cynefin).

Drwy gael cefnogaeth, mae bellach wedi sefyll arholiadau Lefel A, yn dysgu gyrru ac yn bwriadu mynd i brifysgol. Dywedodd Olivia "fyddwn i'n bendant heb gyrraedd lle rydw i nawr" heb y sefydlogrwydd a'r help a gafodd.

## Cartref newydd Cathryn a Jeremy

Mae Tai Teg yn gofrestr tai fforddiadwy sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru yn darparu eiddo ar rent neu wedi eu prynu sy'n rhatach na rhent y farchnad. Mae Cathryn a Jeremy wedi cael budd o'r gofrestr:

"Roeddem wedi bod mewn llety rhent preifat am 16 mlynedd, yna fe fu farw ein landlord a chafodd y tŷ ei werthu. Fe wnaeth cyfaill argymell Tai Teg a Tai Gogledd Cymru felly fe wnaethon ni gofrestru ar gyfer cartref. Mae'r cartref newydd yn golygu sefydlogrwydd ar gyfer yr holl deulu. Roedd y blodau i'n croesawu pan wnaethom gyrraedd yn hyfryd".

## Taith Jane

Dywedodd Jane*, tenant i Gymdeithas Tai ClwydAlyn ac a ddefnyddiodd hyb iechyd meddwl cymunedol iCan ei bod pethau wedi mynd yn drech na hi  "nid yw'n ormodiaith dweud na fyddwn yma heddiw" pe na byddai wedi ymwneud â nhw.

Mae Jane* yn parhau i dderbyn cymorth ar gyfer materion lles a iechyd meddwl yn gysylltiedig gyda nifer o brofedigaethau a gafodd.



*Taff*

# Dadansoddi'r ystadegau: Sut mae cymdeithasau tai yn ychwanegu gwerth

## Trivallis:
### Cau'r bwlch sgiliau ar gyfer adfywio

Dynododd Trivallis fwlch sgiliau a fyddai wedi atal preswylwyr lleol rhag cael mynediad i swyddi adeiladu a gafodd eu creu drwy adfywio Penrhys. I fynd i'r afael â hyn buont yn gweithio gyda Bluewater Recruitment, Cymunedau am Waith+ ac Arco Training i gyflenwi hyfforddiant gydag achrediad a chymorth cyflogaeth.

Fel canlyniad, mae 11 o breswylwyr wedi sicrhau cardiau CSCS gan olygu eu bod yn barod am swydd cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Mae'r dull gweithredu rhagweithiol hwn yn sicrhau fod arian a fuddsoddir mewn adfywio Penrhys yn aros yn y gymuned, gyda phobl leol yn cael budd o'r cyfleoedd a gaiff eu creu.

## Tai Tarian:
### Rhaglen budd cymunedol

Dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf mae Tai Tarian – cymdeithas tai sydd â 9,000 annedd yn ardal Castell-nedd Port Talbot – wedi rhoi dros £51,000 mewn cyfraniadau budd cymunedol ar draws yr ardal. Aeth y cyllid hwn i dimau chwaraeon lleol, grwpiau a phrosiectau lleol ac ysgolion. Caiff grwpiau eu dewis ar gyfer cyllid drwy nifer o sianeli tebyg i gyswllt gyda chydlynwyr a chynghorwyr lleol, ceisiadau uniongyrchol ac argymhellion personol.

Mae Tai Tarian hefyd yn gwneud cyfraniadau misol i wahanol fanc bwyd o fewn y fwrdeistref a sicrhaodd £10,000 o gyllid yn ddiweddar gan Sefydliad Cymunedol Cymru i wneud gwaith hanfodol ym manc bwyd PANTRY ym Mhontardawe.

Yn ychwanegol, mae eu tîm cynhwysiant ariannol wedi llwyddo i gynyddu hawliadau budd-dal gwerth dros £5m ar gyfer pobl yn byw yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Dros yr un cyfnod yn 2024-25 fe wnaeth y tîm hefyd roi 542 taleb banc bwyd, 700 taleb cymorth ynni a 115 taleb cymorth digidol i'r rhai mewn angen.

## Cymdeithas Tai Gogledd Cymru:
### Tai â chymorth yn hyrwyddo llesiant hirdymor

Mae Tai Gogledd Cymru wedi bod yn ddarparydd dibynadwy ar gyfer tai â chymorth yn yr ardal am dros 20 mlynedd. Mae eu gwaith yn grymuso unigolion i ennill mwy o annibyniaeth a llesiant.

Mae eu cynllun Noddfa, sy'n cynnig llety dros dro â chymorth, yn gweithio'n agos gyda campfa focsio leol er mwyn gwella iechyd meddwl, iechyd corfforol a chysylltiadau lleol preswylwyr. Mae'r cynllun wedi ennill gwobrau a chafodd effaith drawsnewidiol ar breswylwyr.

"Mae'r tair sesiwn ddiwethaf i mi fod arnynt wedi bod yn dda iawn, gan mod i'n dioddef o orbryder cymdeithasol a phroblemau eraill sydd weithiau wedi digwydd oherwydd i mi fod ar ben fy hun mor hir yn ystod Covid. Mae cael rhywbeth mae gen i ddiddordeb yn ei wneud gyda phobl o'r un anian a rhai rwy'n mwynhau eu cwmni, yn fuddiol iawn i fy iechyd meddwl. Mae'n helpu i wella llesiant pawb.

"Mae'r ffaith fod preswylwyr a staff yn ei fwynhau gyda'i gilydd yn ein helpu i deimlo'n fwy agored i siarad yn gyfrinachol ac mae hynny yn fanteisiol i iechyd meddwl a lles pawb. Mae'n llawer iawn gwell na bod yn y tŷ drwy'r amser, yn cysgu, chwarae gemau cyfrifiadur a bod ar ben fy hun."

# Dadansoddi'r ystadegau:
# Sut mae cymdeithasau tai yn ychwanegu gwerth

### Cynon Taf:
### Cymdeithas Down to Zero

Mae Down to Zero, sy'n rhan o Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf, yn gweithio gyda chymunedau lleol i ostwng effeithiau newid hinsawdd yn Rhondda Cynon Taf. Mae prosiectau yn cynnwys tyfu bwyd iach a fforddiadwy yn lleol a chynhyrchu gwellhawyr pridd cyfeillgar i'r amgylchedd. Mae'n darparu cyflogaeth leol, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli. Rhoddodd gwirfoddolwyr 7,000 awr i'r prosiectau yn y flwyddyn ddiwethaf, gan danlinellu eu gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol. Ac am bob £1 a fuddsoddodd Cynon Taf yn 2024-25, roedd adenilliad cymdeithasol ar fuddsoddiad Down to Zero yn £6.50.

### Tai Taf:
### Mynd i'r afael â gorlenwi gyda LoftPro

Mae Cymdeithas Tai Taf yn darparu opsiynau tai ar gyfer ardaloedd gydag ystod amrywiol o gymunedau ac mae wrthi'n gwella rhai o'r cartrefi y mae'n eu rhentu fel eu bod yn fwy addas ar gyfer anghenion tenantiaid. Er enghraifft, mae'r gwaith wedi cynnwys addasu wyth atig mewn cartrefi presennol (mewn partneriaeth gyda LoftPro) i greu ardaloedd byw ychwanegol a chyfleusterau oedd eu mawr angen tebyg i ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd gwely ar gyfer teuluoedd aml-genhedlaeth a theuluoedd mawr.

### Beacon Cymru:
### Hyrwyddiad unigryw ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Beacon wedi comisiynu artistiaid o grwpiau a gaiff eu tangynrychioli i ddefnyddio ei safleoedd i roi llwyfan cyhoeddus ar gyfer eu gwaith i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Enillodd prosiect celf stryd gan Melissa Rodrigues a Joel Morris, dau artist o Abertawe, yn dathlu gwaith pedwar artist Du Prydeinig amlwg un o wobrau blynyddol Arts and Business Cymru ym mis Gorffennaf 2024.

### Hedyn:
### Cydweithio gyda'r sector cyhoeddus

Mae gan Hedyn ran hanfodol mewn cyflenwi prosiect adfywio graddfa fawr yng Nghasnewydd. Cafodd Hedyn ei ffurfio pan unwyd Cartrefi Dinas Casnewydd a Cartrefi Melin ac mae'n arwain trawsnewidiad £47m yn yr ardal. Bydd y datblygiad blaenllaw yn darparu 158 o gartrefi newydd ac yn symud canolfan siopa Ringland i integreiddio gyda Chanolfan Iechyd a Llesiant 19 Hills – canolfan GIG newydd gyda dros 20 o wasanaethau ar gael yn cynnwys gwasanaethau meddyg teulu, gofal sylfaenol iechyd meddwl, deintyddiaeth, ffisiotherapi paediatreg a chlinigau gwasanaethau cymunedol. Mae'r cynllun hwn ar y cyd i adfywio Ringland yn helpu i greu hyb cymunedol sy'n gweithio i bobl leol.

# Dadansoddi'r ystadegau

# Sut mae cymdeithasau tai yn ychwanegu gwerth

## Cymdeithas Tai Merthyr Tudful:
## Prosiect Fit and Fed

Mae Fit and Fed, cynllun a gaiff ei gydlynu gan Gymdeithas Tai Merthyr Tudful, yn rhoi mynediad am ddim i chwaraeon a gweithgaredd corfforol a phryd o fwyd maethlon ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sy'n cymryd rhan. Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r prosiect wedi darparu 12,023 o brydau am ddim – gan fod yn achubiaeth i deuluoedd Merthyr yn ystod gwyliau'r ysgol. Gan fod cyllid o'r Loteri Genedlaethol yn dod i ben, mae'r gymdeithas tai wedi codi arian i barhau'r prosiect am 12 mis arall.

## Stori:
## Prosiect Spectrum yn addysgu plant am berthynas iach

Mae Stori yn cynnal prosiect Spectrum sy'n addysgu plant ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd am bwysigrwydd perthynas iach a chodi ymwybyddiaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r prosiect wedi cyrraedd mwy na 40,982 o blant ers 2014, gan weithio gydag amrywiaeth eang o asiantaethau ledled Cymru i helpu atal y problemau hyn. Mae deunyddiau hefyd ar gael ar gyfer rhieni ac athrawon.

## Cronfa Gymunedol Bro Myrddin

Sefydlodd Cymdeithas Tai Bro Myrddin ei Chronfa Gymunedol yn 2021/22 ac mae wedi cyflwyno tri chynllun yn gyfanswm o £9,000 yn ystod 2023/24, rhan o gyfanswm buddsoddiad o £14,000 ers sefydlu'r rhaglen. Mae'r cynlluniau wedi cynnwys:

» Ymwybyddiaeth Ofalgar i Ddisgyblion: Gweithiodd y prosiect hwn gyda chlybiau cymunedol yr Heddlu i gyflwyno prosiectau ymwybyddiaeth ofalgar i 733 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (5/6 oed) ledled Sir Gaerfyrddin.

» Prynu diffribiliwyr: Talodd y gronfa am brynu a gosod 3 diffibrilwr yng nghymunedau Bro Myrddin.

## Cynllun Pitch4Pounds Bron Afon

Mae Bron Afon yn cynnal cynllun Pitch4Pounds sy'n galluogi grwpiau cymunedol i gynnig am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi cynaliadwyedd ac yn gwella llesiant yn yr ardal leol. Mae'r grwpiau a wnaeth gynigion llwyddiannus yn cynnwys prosiect Canddo, grŵp llesiant cymunedol a ddefnyddiodd arian i brynu offer ar gyfer ei sesiynau gwaith coed a Chyfeillion Fishpond Park, a ddefnyddiodd yr arian i roi oes newydd i barc lleol. Caiff cynllun Pitch4Pounds ei ariannu gan gynllun budd cymunedol Bron Afon.

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

Cartrefi Cymunedol Cymru
Desg, 7-8 Park Place
Caerdydd
CF10 3DP

**enquiries@chcymru.org.uk**

**07443 975 020**